YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@ygglangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.ygglangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

15 Mawrth 2023

Arolwg Estyn 27-31.03.23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Rydym wedi cael gwybod prynhawn ddoe y bydd yr ysgol yn cael ei harolygu gan Estyn rhwng 27-31 o Fawrth 2023. Yn wreiddiol roedd Estyn yn bwriadu arolygu ysgol arall, ond oherwydd amgylchiadau eithriadol, maent wedi gofyn i'n harolygu ni yn lle. O ganlyniad maent yn ceisio newid eu dogfennaeth i gael popeth mewn lle ar gyfer ein hysgol ni. Felly ymddiheuriadau am yr oedi yn rhannu popeth gyda chi a byddwn yn cwrdd â dysgwyr yfory i drafod y trefniadau ar ôl i mi gwrdd â'r arolygydd cofnodol.

Er mwyn blaen gynllunio cymerwn y cyfle i'ch hysbysu y bydd cyfle i chi fel rhieni a gofalwyr gyfarfod gyda'r Arolygwyr ar nos Lun 27.03.23 am 5pm. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol. Cyfarfod i oedolion yn unig yw hwn ac felly ni chaniateir ddod â phlant i'r cyfarfod, boed yn ddysgwyr yr ysgol neu beidio. Atodaf bamffled Estyn yn esbonio'r broses arolygu i chi ei ddarllen cyn y noson.

Yn ogystal, gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur swyddogol isod sy'n cael ei weinyddu a'i goladu yn uniongyrchol gan Estyn. Byddai'n braf iawn pe bai canran uchel o rieni a gofalwyr yn derbyn y cynnig i fynegi barn drwy'r holiadur yn ogystal â mynychu'r cyfarfod. Bydd yr holiadur yn cau am 11pm nos Lun 20.03.23

https://www.smartsurvey.co.uk/s/7AW4MD/

At sylw rhieni a gwarchodwyr dysgwyr Bl.7: byddwn yn gohirio'r noson rieni sydd wedi cael ei threfnu ar gyfer nos Iau 30.03.23 a rhannwn ddyddiad newydd ar gyfer tymor yr haf, ar ôl i ni ddychwelyd i'r ysgol wedi gwyliau'r Pasg. Ymddiheuriadau am hyn.

Mae'n wyth mlynedd ers i Estyn ymweld â ni diwethaf ac felly mae'n gyfle euraidd i ni ddathlu ac arddangos gwaith da a llwyddiannau'r ysgol fel un tîm, Tîm Llan.

Yn ddiffuant,

Meurig Jones
Prifathro

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@ygglangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.ygglangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

15 March 2023

Estyn Inspection 27-31.03.23

Dear Parent / Guardian,

We were informed yesterday afternoon that the school will be inspected by Estyn between 27-31 March 2023. Originally Estyn had planned to inspect a different school, but due to exceptional circumstances, they have asked that we be inspected instead. As a result, they are in the process of changing their documentation for our school. Apologies therefore for the delay in sharing this information with you and we will be meeting with learners tomorrow to share the arrangements, following my meeting with the reporting inspector.

In order to plan ahead we would like to inform you that there will be an opportunity for you as parents and carers to meet the Inspectors on Monday 27.03.23 at 5pm. The meeting will be held in the school hall. This is a meeting for adults only and no children are allowed to attend the meeting, be they learners of this school or not. Along with this letter is a leaflet from Estyn explaining the inspection process for you to read before the meeting.

In addition, we kindly ask you to complete the official questionnaire below which is administered and collated directly by Estyn. It would be great if a high percentage of parents and carers accepted the offer to share their opinion through the questionnaire as well as attending the meeting. This questionnaire will close at 11pm Monday 20.03.23

https://www.smartsurvey.co.uk/s/7AW4MD/

For the attention of Year 7 parents and carers: we will postpone the parents evening arranged for Thursday 30.03.23 and we will share a new date for the summer term following the Easter holidays. Apologies for any inconvenience caused.

It has been eight years since Estyn last visited us and therefore this is a golden opportunity for us to celebrate and showcase all the good work of the school and our many successes as one team, Team Llan.

Yours sincerely,

Meurig Jones
Headteacher